



COD MODIWL: ECAD4018C

Cyflwyniad

Yn ystod yr aseiniad yma ymchwilir i sut defnyddia Ysgol A, sef ysgol profiad addysgu proffesiynol 1 [PAP1 o hyn ymlaen] ei lleoliad a'i chymuned i gefnogi dysgu ei disgyblion. Trwy hyn defnyddir gwefan a phrosbectws yr ysgol, yn ogystal ag adroddiad Estyn, Fy Ysgol Leol ac ystod eang o wefannau i ymchwilio. Ymchwilir yn ddyfnach i broffil cymunedol Ysgol A, a dod o hyd i ddau awgrymiad ar gyfer sut gall Ysgol A ymgysylltu â'r gymuned yn ehangach i gefnogi dysgu disgyblion.

Proffil cymunedol – adnoddau o fewn y gymuned

Ysgol drefol sydd yn ehangu yw Ysgol A. Ardal llawn cyfleusterau defnyddiol, fel ardaloedd awyr agored cyhoeddus, parciau, coedwigoedd a thrac beicio. Ceir yn ogystal ag amrywiaeth o brofiadau dysgu megis depo ambiwlans, gorsaf dân, ysbyty, meddygfa, llyfrgell, gorsaf bws ac amrywiaeth o eglwysi a chapeli ar gyfer cydweithredu. Yn ychwanegol, ceir clybiau tu fas ysgol er enghraifft, clwb rygbi, pêl droed, criced, canolfan gymnasteg, canolfan hamdden a phwll nofio, heb sôn am archfarchnadoedd, siopau pentref a bwytai. Ar wahân i hyn, er nad oes meithrinfa dan dair oed yn yr ysgol, mae yna dri yn yr ardal leol. Gwelir bod dau grŵp rhieni a phlant bach ar gael yn ystod yr wythnos (Gorseinon Town Council, dim dyddiad).

Er bod llawer o gyfleusterau yn yr ardal leol, mae ysgol A dal yn defnyddio safle'r ysgol ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol fel clwb hwyl ar ôl ysgol, ffair Nadolig a chyngherddau cymunedol. Wrth i'r ysgol wahodd y gymuned i'r safle, gall hyn adeiladu perthynas gadarnhaol rhyngddynt, sydd yn caniatáu'r gymuned i deimlo'n rhan o'r ysgol ac i rieni gymryd mwy o ran yn addysg eu plant. Gweithgaredd cynhwysol defnyddiol i rieni fyddai datblygu gwybodaeth o gwricwlwm Ysgol A. Dywed Llywodraeth Cymru (2022), "Wrth ddatblygu eu cwricwlwm, dylai ysgolion gynnwys dysgwyr, rhieni, gofalwyr, asiantaethau partner a'r gymuned leol". Trwy hyn, sicrhewr bod y cwricwlwm yn cael ei ddatblygu i gefnogi anghenion y dysgwyr, wrth ddarparu cyfle i'r "dysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r gymuned leol ... i gyfrannu at y broses o gynllunio'r cwricwlwm" (Llywodraeth Cymru, 2022).

Cred West-Burnham, Farrar ac Otero (2007, t. 72), "Families are the first and most important teachers" a bod pedwar strategaeth addysgeg naturiol sef "storytelling, play, games and dialogue", i addysgu rhieni a theulu ehangach am sut y gallant addysgu gartref. Dengys ymchwil bod adrodd straeon cynnar yn sylfaen dda ar gyfer dysgu, drwy sbarduno creadigrwydd a "bringing experiences to life". Trwy adrodd storiâu yn hytrach na darllen llyfrau, gan ddefnyddio sachau stori Neil Griffiths,

daw storiâu yn fyw. Fodd bynnag, nid oes gan bob teulu'r sefydlogrwydd ariannol i brynu adnoddau dysgu. Yn ôl Book Trust Cymru (2024), dylai pob ymwelydd iechyd ddarparu pecyn 'Dechrau Da' i'r plant dan eu gofal cyn eu trydydd pen-blwydd. Gellir eu casglu o'r llyfrgell leol yn ogystal, lle mae amrywiaeth eang o lyfrau plant ar gael i'w benthyg yn rhad ac am ddim.

Chwarae yw strategaeth ddylanwadol arall. Ffordd effeithiol o wneud hyn yw trwy chwarae rôl, gan ei fod yn helpu rhieni a theulu ehangach i "explore ways of playing with and listening and talking to their children" (Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, 2023). Gemau yw strategaeth arall y gellir eu defnyddio yn y cartref, gan fod gemau'n darparu profiadau strwythuredig sydd yn caniatáu i ddysgwyr ddysgu trwy wneud, gwella cof a magu dealltwriaeth, gan feithrin cydweithredu, cyfathrebu a dysgu cymdeithasol (Prifysgol Caerdydd, dim dyddiad). Esiampl berffaith yw gemau iaith ar yr aelwyd fel 'Rwy'n gweld gyda fy llygaid bach i' neu gemau mathemateg fel rhifo lliwiau ceir.

Strategaeth bwysig olaf yw deialog. Anogir rhieni a theulu ehangach sgwrsio am brofiadau ysgol gyda'u plant, gan wybod bod deialog yn bwysig er mwyn creu perthynas gadarnhaol ac ymdeimlad o berthyn. Gall Ysgol A gefnogi'r addysgeg hon ac annog teuluoedd i recordio sgwrs am weithgareddau'r penwythnos er mwyn rhannu bore Llun. Gellir ychwanegu syniadau i adran 'Helpu eich plentyn' ar wefan yr ysgol i rieni a theulu ehangach i gefnogi eu plant (Ysgol A, 2024). Gwelir syniadau amrywiol ar gyfer plant meithrin hyd at flwyddyn 6, o ganeuon, sgiliau cyn ysgrifennu, rhifedd a help gyda'r Gymraeg, ac opsiynau mwy datblygedig i'r plant hŷn. Gall y rhain gynnwys gwefannau a gwybodaeth ddefnyddiol, llythrennedd a sillafu. Dengys hyn arwyddion clir o sut gwnaiff Ysgol A gefnogi'r pedwar addysgeg naturiol.

Gan wybod sut mae Ysgol A yn cefnogi'r gymuned i wella dysgu yn y cartref, y brif ffordd mae'r gymuned yn cefnogi'r ysgol yw drwy drefnu amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau i godi arian ar gyfer prynu adnoddau i'r ysgol. Nodir y codwyd cyfanswm o £6,749 yn y flwyddyn academiaidd 2023 i 2024, ac meddir targed o £10,000 ar gyfer 2024 i 2025 (Ysgol A, 2024).

Awgrymiadau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned

Yn ôl adroddiad Estyn (2017), dangoswyd bod "582 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 115 o ddisgyblion oed meithrin". Yn ogystal â hyn, mae gan yr ysgol ugain dosbarth, a thri ohonynt yn ddosbarthiadau cymysg, a "27 athro/awes a 22 cynorthwydd" (Prosbectws 2024/25). Er hyn, wrth gymharu gwefan Estyn a gwefan Fy Ysgol Leol gwelir bod y data diweddaraf yn dangos bod llai o ddisgyblion yn yr ysgol o gymharu â 2017. Gwelir bod 570 o ddisgyblion yno bellach (Fy Ysgol Leol, 2024).

Canfu adroddiad Estyn (2017) fod perfformiad yr ysgol o safon dda. Darganfuwyd bod yr athrawon a'r cynorthwywyr dosbarth yn cydweithio'n dda, gan ddefnyddio themâu diddorol a dychmygus i gynllunio gweithgareddau dysgu ysgogol a chyffrous, ac angerdd cryf i ddatblygu'r iaith Gymraeg. Canfuwyd bod y dysgwyr yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, a'u canmol am gyflawni cynnydd cyson ym mhob maes dysgu a phrofiad. Ac yn olaf, canfuwyd bod y gwaith y mae cyngor a chyfadranau disgyblion yr ysgol yn ei wneud yn effeithiol ac yn cael dylanwad cryf ar fywyd a gwaith Ysgol A. Yn dilyn y pwyntiau cadarnhaol hyn ar berfformiad yr ysgol yn 2017, cafodd dau ddatganiad ei wneud er mwyn gwella ar agweddau penodol er budd yr ysgol. Y rhain oedd "sicrhau cyfleoedd cyson a systematig i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm" ac i "gryfhau defnydd athrawon o ddata crynodedol er mwyn cynllunio'n fwriadus ar gyfer unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion" (Estyn, 2017).

Trwy ddilyn yr argymhellion uchod, dyfeisiodd Ysgol A gynllun datblygu yn cynnwys pum targed er mwyn gwella dysgu'r plant ymhellach. Mae'r targedau hyn yn cynnwys, annog angerdd y plant dros siarad Cymraeg o'u dewis, er mwyn gwella eu sgiliau llafaredd Cymraeg. Yn ail, annog diddordeb plant drwy roi cyfle iddynt ddefnyddio a datblygu eu sgiliau rhifedd a rhesymu, wrth ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau ymarferol. Yn drydydd i gynyddu dealltwriaeth y staff o'r protocol cyfredol ar gyfer asesu (Cwricwlwm i Gymru, 2022) i gynorthwyo gyda dilyniant dysgu disgyblion, gan gynnwys y rhai dan anfantais (Llywodraeth Cymru, 2020), trwy lunio cynllun datblygu staff a chynorthwywyr, er mwyn diwallu anghenion dysgwyr. Ac yn olaf, "I greu diwylliant o ymholi, arloesi ac archwilio er mwyn datblygu'r addysgegau ac ymarferion sydd eu hangen i gwrdd â gofynion pob disgybl" (Cynllun Datblygu Ysgol, 2023).

Wrth ystyried y targedau uchod, awgrymir ymgysylltu â'r gymuned rhieni a gofalwyr gan bwysleisio rôl rhieni wrth gefnogi eu plant i ddatblygu angerdd i siarad Cymraeg. Gall Ysgol A wahodd rhieni di-gymraeg a theulu ehangach sef rhieni cu, neu warchodwyr plant lleol, i sesiynau dysgu Cymraeg o fewn yr ysgol, mewn cydweithrediad gyda Menter iaith leol. Drwy hyn byddai plant yn gweld eu rhieni yn cymryd diddordeb yn yr iaith a byddai modd i'r plant fod yn fodel rôl i'w rhieni, ac yn fentoriaid iddynt. "Mae'r rhan fwyaf ohonon ni yn dysgu'n geiriau cyntaf ac yn eu siarad drwy wrando a dilyn arferion ein teuluoedd," dywed y Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd (2021). Canfuwyd bod plant yn fwy tebygol o ddod yn siaradwyr rhugl os ydynt yn dod i gysylltiad â'r iaith gartref, gan fod defnydd iaith gynnar yn un o benderfyniadau allweddol y defnydd o iaith i'r dyfodol. O wybod hyn, gall Ysgol A gefnogi'r rhieni, teuluoedd ehangach a gwarchodwyr plant lleol gyda'u hiaith Gymraeg, er mwyn datblygu iaith Gymraeg disgyblion a'u hannog i'w defnyddio.

Gall Ysgol A wella sgiliau disgyblion, trwy ddatblygu sgiliau rhifedd a rhesymu gan ymgysylltu â rhieni a gofalwyr drwy baratoi taflen syniadau ar sut i gefnogi sgiliau rhifedd a rhesymu eu plant. Gall Ysgol A hefyd annog rhieni a gofalwyr i gynnwys eu plant wrth ymwneud a thasgau ymarferol yn ymwneud â rhif, megis creu rhestr siopa, dewis nwyddau cyfatebol, a thalu amdanynt. Ar ôl dod adre gellir defnyddio'r bil i gymharu prisiau nwyddau. Wrth ddeall fod "diddordeb rhieni a'r graddau y maent yn ymwneud ag addysg a gweithgareddau dysgu eu plant yn ffactor amddiffynnol sy'n gysylltiedig â chyflawniad" (Llywodraeth Cymru, 2017), gall hyn annog rhieni a theulu ehangach i gymryd mwy o ddiddordeb yn addysg eu plant. Yn yr un modd, gall Ysgol A gynnal sesiynau hybu sgiliau sylfaenol i rieni sydd yn teimlo'n ansicr am eu sgiliau mathemategol. Yn ogystal â hyn, gall y sesiynau fagu hyder rhieni wrth iddynt gefnogi eu plant.

O ran asesu, deallir caiff athrawon gyfle i rannu gwybodaeth gyda rhieni yn ystod nosweithiau penodol i drafod cynnydd eu plant. Enghraifft olaf o sut y gall staff Ysgol A gyflawni'r targed o asesu, yw sicrhau ymgysylltiad â chymuned rhieni a gofalwyr. Trwy gynnal nosweithiau agored gan ddarparu cyfle anffurfiol i rieni weld gwaith eu plant ac ymweld â dosbarthiadau, datblygir partneriaeth. Cofir hefyd, "families are the first and most important teachers" (Burnham, Farrar a Otero, 2007). Atgyfnerthir arwyddocâd "cynnwys partneriaid mewn dysgu" hefyd yn y Safonau Proffesiynol, lle nodir yr angen i ddarparu athrawon "Ddeall pwysigrwydd cynnwys rhieni/gofalwyr a phartneriaid eraill mewn ffordd gadarnhaol ac achub ar gyfleoedd i arsylwi ar brosesau, a'u gwerthuso." (Llywodraeth Cymru, 2017).

Caiff athrawon gyfle hefyd i gydweithio gyda rhieni mewn cyfarfodydd aml asiantaethol wrth drafod anghenion dysgu ychwanegol [ADY o hyn ymlaen]. Yn unol â disgwyliad cynllun gwella'r ysgol, gall athrawon Ysgol A ymchwilio ymhellach i anghenion penodol disgyblion o fewn eu dosbarthiadau. Er enghraifft, amlyga ymchwil bod paratoi cyfleoedd i ddysgu mewn modd creadigol a chorfforol yn effeithiol ar gyfer plant â dyslecsia. Gan fod Cwricwlwm i Gymru (2022) yn nodi hyn yn bwysig hefyd, gall y ffordd yma o addysgu gefnogi pob disgybl. Atgyfnerthir arwyddocâd hyn yn llinyn "pedwar diben i ddysgwyr" hefyd yn y Safonau Proffesiynol, lle nodir yr angen i athrawon, "... arddangos gwybodaeth am anghenion pob dysgwr, a dealltwriaeth o'r anghenion hynny, wrth gynllunio, paratoi ac addysgu. Hefyd, wrth wneud hyn, mae'n sicrhau mai'r pedwar diben sy'n gyrru profiadau dysgwyr" (Llywodraeth Cymru, 2017).



[REDACTED]

[REDACTED]

Rhestr Gyfeiriadau

Book Trust (2024) *Dechrau Da yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://www.booktrust.org.uk/what-wedo/programmes-and-campaigns/bookstart/families/bookstart-in-wales/> (Cyrchwyd: 5 Ionawr 2025).

Corner to Learn (2015) *About Neil*. Ar gael yn: <https://cornertolearn.co.uk/aboutneil/#:~:text=Neil%20Griffiths%20was%20a%20Primary%20School%20headteacher%20for,the%20to%20schools%20and%20communities%20throughout%20the%20UK>. (Cyrchwyd: 5 Ionawr 2025).

Estyn (2017) *Adroddiad ar Ysgol A*. Ar gael yn: <wedi dileu> (Cyrchwyd: 3 Ionawr 2025).

Gorseinon Town Council (dim dyddiad) *Clubs, Organisations & Groups in the area*. Ar gael yn: https://www.gorseinontowncouncil.gov.uk/Clubs_Groups_and_Resources_48970.aspx (Cyrchwyd: 3 Ionawr 2025).

Llywodraeth Cymru (2022) *Ystyriaethau gweithredu ac ymarferol*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/ystyriaethau-gweithreduac-ymarferol/> (Cyrchwyd: 4 Ionawr 2025).

Llywodraeth Cymru (2024) *A Quality Framework for Early Childhood Play, Learning and Care in Wales*.

Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/api/storage/4901fbbb-6aa2-4412-be18f73ca2c3c599/a-quality-framework-for-early-childhood-play-learning-and-care-v2.pdf> (Cyrchwyd: 5 Ionawr 2025).

Llywodraeth Cymru (2024) *Ysgol A*. Ar gael yn: <wedi dileu> (Cyrchwyd: 3 Ionawr 2025).

Llywodraeth Cymru (2021) *Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn*

teuluoedd. Ar gael yn: [https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/polisicenedlaethol-ar-drosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd.pdf#:~:text=Mae%E2%80%99r%20polisi%20cenedlaethol%20hwn%20ar%20drosglwyddo%E2%80%99r%20Gymraeg%20mewn,y%20cenedlaethau.%20Dim%20%E2%80%93%20er%20gwybodaeth%20yn%20unig)

[01/polisicenedlaethol-ar-drosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/polisicenedlaethol-ar-drosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd.pdf#:~:text=Mae%E2%80%99r%20polisi%20cenedlaethol%20hwn%20ar%20drosglwyddo%E2%80%99r%20Gymraeg%20mewn,y%20cenedlaethau.%20Dim%20%E2%80%93%20er%20gwybodaeth%20yn%20unig)

[mewnteuluoedd.pdf#:~:text=Mae%E2%80%99r%20polisi%20cenedlaethol%20hwn%20ar%20drosgl](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/polisicenedlaethol-ar-drosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd.pdf#:~:text=Mae%E2%80%99r%20polisi%20cenedlaethol%20hwn%20ar%20drosglwyddo%E2%80%99r%20Gymraeg%20mewn,y%20cenedlaethau.%20Dim%20%E2%80%93%20er%20gwybodaeth%20yn%20unig)

[wyddo%E2%80%99r%20Gymraeg%20mewn,y%20cenedlaethau.%20Dim%20%E2%80%93%20er%20gwybodaeth%20yn%20unig](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/polisicenedlaethol-ar-drosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewnteuluoedd.pdf#:~:text=Mae%E2%80%99r%20polisi%20cenedlaethol%20hwn%20ar%20drosglwyddo%E2%80%99r%20Gymraeg%20mewn,y%20cenedlaethau.%20Dim%20%E2%80%93%20er%20gwybodaeth%20yn%20unig)

[.pdf](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/polisicenedlaethol-ar-drosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewnteuluoedd.pdf#:~:text=Mae%E2%80%99r%20polisi%20cenedlaethol%20hwn%20ar%20drosglwyddo%E2%80%99r%20Gymraeg%20mewn,y%20cenedlaethau.%20Dim%20%E2%80%93%20er%20gwybodaeth%20yn%20unig) (Cyrchwyd: 8 Ionawr 2025).

Llywodraeth Cymru (2017) *Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth*. Ar

gael yn: [https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/ymgysylltu-](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/ymgysylltu-achymorth-wrth-rianta-canllawiau-i-ddarparwyr.pdf)

[achymorth-wrth-rianta-canllawiau-i-ddarparwyr.pdf](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/ymgysylltu-achymorth-wrth-rianta-canllawiau-i-ddarparwyr.pdf) (Cyrchwyd: 10 Ionawr 2025).

Llywodraeth Cymru (2017) *Safonau proffesiynol ar gyfer athrawon addysg bellach, ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith ac ymarferwyr addysg oedolion yng Nghymru*. Ar gael yn:

[https://hwb.gov.wales/api/storage/b4acb305-2257-4b9b-](https://hwb.gov.wales/api/storage/b4acb305-2257-4b9b-a82ee83dce9e69ef/Professional%20standards%20for%20FE%20%20WBL%20and%20ACL%20Practitioners%20-%20June%202023%20%28W%29.pdf?preview=true)

[a82ee83dce9e69ef/Professional%20standards%20for%20FE%20%20WBL%20and%20ACL%20Prac](https://hwb.gov.wales/api/storage/b4acb305-2257-4b9b-a82ee83dce9e69ef/Professional%20standards%20for%20FE%20%20WBL%20and%20ACL%20Practitioners%20-%20June%202023%20%28W%29.pdf?preview=true)

[titioners%20-%20June%202023%20%28W%29.pdf?preview=true](https://hwb.gov.wales/api/storage/b4acb305-2257-4b9b-a82ee83dce9e69ef/Professional%20standards%20for%20FE%20%20WBL%20and%20ACL%20Practitioners%20-%20June%202023%20%28W%29.pdf?preview=true) (Cyrchwyd: 10 Ionawr 2025).

Llywodraeth Cymru (2022) *Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: [https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-](https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-igymru)

[igymru](https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-igymru) (Cyrchwyd: 8 Ionawr 2025).

Llywodraeth Cymru (2017) *Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth*. Ar gael yn:

[safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfercyfrifiaduron-](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/202008/canllawiau-gyfer-cefnogi-dysgwyr-agored-niwed-dan-anfantais.pdf)

[personol.pdf](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/202008/canllawiau-gyfer-cefnogi-dysgwyr-agored-niwed-dan-anfantais.pdf) (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2025).

Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan*

anfantais. Ar gael yn:

[https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/202008/canllawiau-gyfer-cefnogi-](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/202008/canllawiau-gyfer-cefnogi-dysgwyr-agored-niwed-dan-anfantais.pdf)

[dysgwyr-agored-niwed-dan-anfantais.pdf](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/202008/canllawiau-gyfer-cefnogi-dysgwyr-agored-niwed-dan-anfantais.pdf) (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2025).

Neurology MIND care (2024) *Crochet and Brain Health*. Ar gael yn: [Crochet and Brain Health -](https://www.mind.org.uk/about-us/news-and-press/crochet-and-brain-health)

[Neurology MIND Care](https://www.mind.org.uk/about-us/news-and-press/crochet-and-brain-health) (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2025).

Prifysgol Caerdydd (dim dyddiad) *Make use of Educational Games*. Ar gael yn:
[https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0017/1165004/How to Make Use of Educational Games.pdf](https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0017/1165004/How_to_Make_Use_of_Educational_Games.pdf) (Cyrchwyd: 5 Ionawr 2025).

Teach Early Years (2025) *Early years stories – Try storytelling rather than reading*. Ar gael yn:
<https://www.teachearlyyears.com/learning-and-development/view/storytelling> (Cyrchwyd: 5 Ionawr 2025).

West-Burnham, J., Farrar, M. and Otero, G. (2007) *Schools and communities : working together to transform children's lives*. Stafford: Network Continuum Education. (Cyrchwyd: 8 Ionawr 2025).

Ysgol A (2024) *Tudalennau Dosbarth*. Ar gael yn: <wedi dileu> (Cyrchwyd: 5 Ionawr 2025).

Ysgol A (2024) *Ffrindiau Ysgol A*. Ar gael yn: <wedi dileu> (Cyrchwyd: 5 Ionawr 2025).

Ysgol A (2024) *Prosbectws 2024/25*. Ar gael yn: <wedi dileu> (Cyrchwyd: 3 Ionawr 2025).

Ysgol A (2023) *Cynllun Datblygu Ysgol*. Ar gael yn: <wedi dileu> (Cyrchwyd: 8 Ionawr).